Elusen yw'r Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniadau a Marwolaethau Cleifion (NCEPOD), sydd â'r nod o wella gwasanaethau gofal iechyd i'r bobl sy'n eu defnyddio.

Rydym yn gwneud hyn trwy gasglu gwybodaeth gan bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Mae ein gwaith wedi arwain at lawer o newidiadau cadarnhaol yn y ffordd y darperir gofal iechyd.

Gwnaethom gasglu gwybodaeth gan ysbytai, meddygon, meddygon teulu a chleifion i archwilio sut y gellid gwella gofal adsefydlu i bobl a gafodd eu derbyn i Uned Gofal Dwys (ICU) a'u rhyddhau o'r ysbyty.


**Am wybodaeth am yr Uned Gofal Dwys a'ch adferiad ewch i:**

ICUsteps

Cyfadran Meddygaeth Gofal Dwys

ICU Delirium

www.ncepod.org.uk




## EIN CASGLIADAU

Nid oedd gofal adsefydlu wedi'i gydlynu'n dda drwy gydol y llwybr; wrth i'r claf gael ei dderbyn i Uned Gofal Dwys, wrth symud i'r ward ac yn y gymuned.

Nid oedd asesiadau anghenion adsefydlu cychwynnol a dilynol i osod/diweddaru nodau bob amser yn cael eu cynnal.

Anaml y byddai mewnbwn llawn gan y tîm amlddisgyblaethol (MDT) ar gael i fodloni holl anghenion cleifion o ran adsefydlu.

Yn aml, nid oedd anghenion/nodau adsefydlu parhaus yn cael eu rhannu rhwng darparwyr gofal iechyd wrth i'r claf symud trwy'r llwybr.

Roedd gwybodaeth i'r claf neu ei deulu am y derbyniad i'r Uned Gofal Dwys ac unrhyw effaith barhaol y gallai ei chael yn gyfyngedig.

## BETH Y GALL GWASANAETHAU IECHYD EI WNEUD

Penodi arweinydd adsefydlu sydd â goruchwyliaeth a chyfrifoldeb am ddarparu adsefydlu cyfannol.

Dylid ailadrodd a dogfennu asesiadau ar gamau allweddol ar hyd llwybr y claf o'i dderbyn i wasanaethau cymunedol, ac unrhyw gyfarfodydd dilynol gan feddyg teulu.

Gwneud llwybrau'n gliriach, er mwyn sicrhau bod y claf yn gweld yr arbenigwr cywir ar yr amser cywir ar gyfer ei anghenion adsefydlu.

Darparu gwasanaethau cymorth, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol a gwasanaethau seicoleg i gleifion ar gyfer eu taith adsefydlu yn ôl yr angen.

Darparu gwasanaeth sy'n briodol i gleifion mewn gwahanol gamau o'r broses adsefydlu drwy gydol y llwybr.

## BETH Y GALLWCH CHI FEL CLAF/GOFALWR EI WNEUD

**Gofynnwch i dîm eich ysbyty am fanylion cyswllt eich cydlynydd adsefydlu.**

**Gofynnwch i'ch tîm gofal adsefydlu am eich nodau adsefydlu penodol a sut y bydd eich cynnydd yn cael ei fonitro.**

**Gofynnwch i'ch tîm gofal pryd fydd eich anghenion adsefydlu yn cael eu hailasesu.**

**Gofynnwch i'ch tîm gofal pa apwyntiadau dilynol rydych chi wedi'u trefnu. Dysgwch pa arbenigwyr fydd yn rhan o'ch gofal adsefydlu.**

**Gofynnwch i'ch tîm gofal a oes grŵp cymorth o gyfoedion ar gael.**

**Byddwch yn rhan o'r penderfyniadau ynghylch eich gofal adsefydlu ar ôl i chi gael eich derbyn i ofal critigol. Rhannwch eich nodau adsefydlu gyda'ch teulu a'ch gofalwyr.**

***Cofiwch:*** *Does dim cwestiwn yn rhy fach nac yn rhy ddibwys. Mae eich tîm gofal iechyd eisiau eich helpu i ddeall eich adferiad a theimlo'n hyderus am eich gofal. Os nad ydych chi'n deall rhywbeth, daliwch ati i ofyn nes i chi ei ddeall yn llawn.*